**W00104-Eur**

**3 Chwefror 2000**

## GALL AMCAN UN FOD O FUDD I FUSNESAU,

## MEDDAI RHODRI MORGAN

Y sector busnes fydd yn arwain y ffordd at dwf economaidd yng Nghymru a bydd arian Amcan Un yn cefnogi hynny, meddai Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd, Rhodri Morgan, mewn cyfarfod o arweinwyr busnes lleol yn Rhydaman heno (dydd Iau, 3 Chwefror).

Yn ystod ei araith i aelodau Menter Busnes y Gorllewin, eglurodd Mr Morgan sut y byddai'r sector preifat yn manteisio ar arian Amcan Un, trwy gyllid uniongyrchol ar gyfer cefnogaeth i fusnesau newydd a chynlluniau ariannu, mentrau hyfforddi a darparu adeiladau addas i fusnesau.

"Heb amheuaeth, yr her bwysicaf i economi Cymru wrth i ni symud i'r unfed ganrif ar hugain yw newid o economi 'cost isel' i fod yn economi technolegol yn seiliedig ar wybodaeth," meddai Rhodri Morgan.

"Bydd gwneud defnydd effeithiol o arian Amcan 1 Ewrop yn ein helpu i wneud hyn, ond mae'n rhaid gwneud hynny trwy bartneriaeth. Mae angen i ni lunio partneriaeth ystyrlon rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, i weithio gyda'n gilydd i foderneiddio'r economi.

"Bydd cyflwyno Amcan 1 yn llwyddiannus yn dibynnu ar gydweithio gan gyrff preifat a chyhoeddus i ddatblygu cynlluniau gweithredu effeithiol ar gyfer eu hardaloedd ac ar gyfer eu hanghenion."

Gall y sector preifat gyflwyno ceisiadau am gyllid Amcan 1 naill ai'n uniongyrchol neu drwy gynlluniau gweithredu lleol neu gynlluniau'n seiliedig ar themâu, a fydd yn nodi strategaeth ar gyfer trawsnewid yr economi. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r cynlluniau hyn olygu budd i fwy nag un corff preifat, gan wneud mwy nag ychwanegu at elw un cwmni.

Bydd rhaglenni'r cronfeydd strwythurol newydd i'w cael hefyd ar ffurf pecynnau cefnogi busnesau, a anelir yn bennaf at gwmnïau bach a chanolig, gan amrywio o gyngor busnes arbenigol i gyllid ar gyfer buddsoddi. Ceir cymorth hefyd ar gyfer ymchwil a datblygu, hyfforddiant a datblygu medrau, marchnata, allforio a mentrau mawr newydd ym maes technolegau gwybodaeth a chyfathrebu.

Bydd y Cynulliad yn sefydlu Asiantaeth newydd, dan arweiniad Prif Weithredwr, ym mis Ebrill i weinyddu'r rhaglenni Ewropeaidd a rheoli'r trefniadau ariannol a'r taliadau. Bydd yr Asiantaeth yn

chwarae rhan flaenweithgar wrth ddelio â'r sector preifat, a bydd yn cynnwys pobl ar secondiad o gwmnïau preifat i sicrhau ei bod yn ymateb i anghenion busnes.

Bydd gan Bwyllgor Monitro'r Rhaglen, a fydd yn goruchwylio rhaglen Amcan 1, gydbwysedd cynrychiolaeth rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

"Yr ydym yn benderfynol y bydd sector busnes ardal Amcan 1 y Gorllewin a'r Cymoedd yn chwarae rhan allweddol wrth ein cynorthwyo i drawsnewid yr economi, ac i'r perwyl hwnnw yr ydym yn gwneud pob ymdrech i gynnwys busnesau yn y gwaith o gynllunio a chyflwyno cyllid Ewropeaidd," meddai Rhodri Morgan.